# CYD-BWYLLGOR CRAFFU DINAS-RANBARTH BAE ABERTAWE

## (CYFARFOD AML-LEOLIAD - SIAMBR Y CYNGOR PORT, TALBOT A MICROSOFT TEAMS)

**Aelodau sy'n Bresennol:** **Dydd Mawrth, 5 Gorffennaf 2022**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd R.James** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd T.Bowen** |
| **Cynghorwyr**: | B.Hall, S.Yelland, G.Morgan, R.Sparks, J.Curtice, C.Holley, A.Dacey a/ac M.Harvey |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | C.John, M.Shaw, J. Burnes, A.Thomas a/ac C.May |

---

1. **PENODI CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD:** Bod y Pwyllgor yn penodi'r Cynghorydd Rob James yn Gadeirydd Cyd-bwyllgor Craffu Dinas-ranbarth Bae Abertawe ar gyfer gweddill y flwyddyn ddinesig.

**PENDERFYNWYD:** Bod y Pwyllgor yn penodi'r Cynghorydd Tim Bowen yn Is-gadeirydd Cyd-bwyllgor Craffu Dinas-ranbarth Bae Abertawe ar gyfer gweddill y flwyddyn ddinesig.

2. **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Nid oedd unrhyw gyhoeddiadau.

3. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Nid oedd unrhyw ddatganiadau.

4. **CYLCH GORCHWYL**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Mike Shaw, Ymgynghorydd Cyfreithiol i'r Pwyllgor Craffu, a thynnodd sylw at y weithred amrywio’n ymwneud â diwygiad Cyd-bwyllgor Craffu Dinas-ranbarth Bae Abertawe, ac yn benodol, Cworwm y Pwyllgor Craffu.

Mewn ymateb i ymholiadau a godwyd, cadarnhawyd bod nifer y Cworwm wedi'i leihau o wyth i chwech, ond bod angen Aelod o bob awdurdod o hyd.

**PENDERFYNWYD:** Cytunodd yr Aelodau ar yr adroddiad.

5. **ADRODDIADAU CHWARTEROL/ADRODDIAD UCHAFBWYNTIAU BARGEN DDINESIG BAE ABERTAWE**

Cyflwynodd Jonathan Burnes, Rheolwr y Rhaglen, yr adroddiad a oedd yn amlinellu'r Adroddiad Monitro Chwarterol ar gyfer Portffolio Bargen Ddinesig Bae Abertawe. Roedd Adroddiad Prif Bwyntiau Bargen Ddinesig Bae Abertawe (BDdBA) yn manylu ar y cynnydd misol a wnaed a'r gweithgareddau a gynlluniwyd ar gyfer rhaglenni a phrosiectau sy’n rhannau hanfodol o bortffolio BDdBA.

Cytunwyd y byddai’r Rheolwr Rhaglenni’n dosbarthu dogfen i Aelodau'r Pwyllgor Craffu yn nodi'r gwahanol acronymau a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad.

Mewn ymateb i ymholiadau a godwyd gan y Pwyllgor Craffu, cadarnhawyd y byddai'r Pwyllgor yn cael gwybod am y risgiau yn y dyfodol; fodd bynnag, byddai'r dangosfwrdd yn amlygu risgiau coch ac eitemau ambr sy’n codi'n unig.

Cadarnhaodd Swyddogion a oedd yn y cyfarfod fod y prosiect Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer yn dal i fod ar ei gamau cynnar, fodd bynnag roedd rheolwr prosiect bellach wedi'i recriwtio. Roedd y broses gaffael ar gyfer y dechnoleg a'r systemau’n parhau, ac roedd swyddi'n mynd i gael eu creu'n fuan iawn. Mynegodd yr Aelodau eu diddordeb mewn ymweld â’r safle.

O ran creu swyddi, cadarnhawyd y byddai tua 9,700 o swyddi'n cael eu creu ar draws yr holl brosiectau. Ar hyn o bryd, y disgwyl oedd y byddai 1,800 o swyddi’n cael eu creu erbyn diwedd 2023, a 2,500 o

swyddi ychwanegol yn 2024. Cytunodd Swyddogion i gynnwys dadansoddiad o'r swyddi yn y dangosfwrdd monitro yn y dyfodol.

Mynegodd yr Aelodau bryder am y contractwyr mawr sy'n ymgymryd â'r prosiectau, yn hytrach na chwmnïau lleol. Awgrymodd yr Aelodau y dylai cwmnïau adeiladu llai o Gymru wneud cais ar y cyd ar gyfer un o'r prosiectau. Esboniodd y Swyddogion y byddai angen i gontractwyr unigol wneud cais am lawer o'r prosiectau hyn er mwyn ennill, sy'n defnyddio llawer o adnoddau, ac yn anffodus nid oedd maint a graddfa'r swyddi’n aml yn addas.

Mewn ymateb i ymholiadau am y gyllideb, cadarnhawyd bod cyfraddau chwyddiant yn cynyddu'n uwch na'r disgwyl; fodd bynnag, roedd disgwyl y byddai modd cyflawni'r prosiectau o hyd heb arian ychwanegol. Yn ffodus, adeiladwyd Arena Abertawe yn bennaf yn ystod y pandemig, a daeth hyn o fewn y gyllideb.

Holodd yr Aelodau faint o arian oedd ar gael gan Lywodraeth Cymru ar gyfer blynyddoedd 10 i 15. Cadarnhawyd bod BDdBA yn disgwyl derbyn tua £2 filiwn y flwyddyn. Cytunodd y Rheolwr Cyllid i ddosbarthu'r ddogfen dadansoddi ffigurau pennawd i holl Aelodau newydd y Pwyllgor Craffu.

## 6. DARPARU DOGFENNAETH I'R CYD-BWYLLGOR

Ystyriodd yr Aelodau’r adroddiad a oedd yn amlinellu’r bwriad i ddarparu dogfennaeth i'r Cyd-bwyllgor a'r Cyd-bwyllgor Craffu yn y dyfodol. Roedd hyn yn cynnwys y cynnig i leihau adroddiadau hir i ymagwedd dangosfwrdd yn y dyfodol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion am yr adroddiad, ond esboniodd y byddai'n fwy priodol i'r Pwyllgor Craffu barhau i dderbyn yr un lefel o wybodaeth ag o'r blaen, yn ogystal â chyflwyno dangosfwrdd. Awgrymodd gyfarfod â Swyddogion i edrych ar opsiynau a fyddai'n addas i'r Cyd-bwyllgor Craffu ac yna cynnig y rhain i Aelodau'r Cyd-bwyllgor Craffu i'w trafod ar ddyddiad pellach.

Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor ohirio'r eitem hon tan gyfarfod yn y dyfodol, er mwyn sicrhau bod yr holl opsiynau ar gael iddynt, yn dilyn trafodaeth rhwng y Cadeirydd a'r Swyddogion.

## 7. BLAENRAGLEN WAITH 2022/23

Cytunodd y Pwyllgor i gael sesiwn ar wahân i ddatblygu'r Flaenraglen Waith ar gyfer 2022/2023.

## 8. EITEMAU BRYS

Nid oedd unrhyw eitemau brys.

**CADEIRYDD**